OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 1502 (Cy. 152)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Corris Uchaf i Riw Gwgan, Gwynedd) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2014

Gwnaed	*2 Mehefin 2014*
Yn dod i rym	*9 Mehefin 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith a wneir arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Mehefin 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Corris Uchaf i Riw Gwgan, Gwynedd) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 9 Mehefin 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o gefnffordd yr A487 yng Nghorris Uchaf yn Sir Gwynedd a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl

neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

Cymhwyso

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Mehefin 2014

R Morgan

R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

TERFYN CYFLYMDER 40 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Rhiw Staerdywyll i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at bwynt sy'n 50 o fetrau i'r gogledd o'r fynedfa i Ganolfan Fynydda Ty'n y Berth.

ATODLEN 2

TERFYN CYFLYMDER 10 MYA

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Rhiw Staerdywyll i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at bwynt sy'n 50 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r ffordd ddiddosbarth i'r depo ailgylchu.